**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 14 Tachwedd 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | C M J Evans | E W Fitzgerald |
| T J Hennegan | P R Hood-Williams | L James |
| D H Jenkins | M H Jones | J W Jones |
| M W Locke | W G Thomas | M S Tribe |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Cyng. Rob Stewart | Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth |
| Paul Relf | Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol |
| Huw Mowbray | Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol |
| Russell Greenslade | Prif Weithredwr, BID Abertawe |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): S M Jones

---

## 8 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

## 9 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 10 Cofnodion

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 11 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

## 12 Manwerthu yng Nghanol y Ddinas

Roedd Rob Stewart, Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth, Paul Relf, Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol a Russell Greenslade, Prif Weithredwr BID Abertawe'n bresennol i drafod manwerthu yng nghanol y ddinas a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Yn gyffredinol, mae canol y ddinas yn gorberfformio er gwaethaf yr heriau dros y blynyddoedd diwethaf.
- Mae nifer yr ymwelwyr yn cynyddu ond nid yw wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd yn 2019.
- Bydd dadansoddiad data pellach o nifer yr ymwelwyr yn ddefnyddiol er mwyn ystyried y rhesymau pam a'r arian a wariwyd gan ymwelwyr â chanol y ddinas.
- Ystyrir cyfleoedd ar gyfer cyllid lle bo modd, fodd bynnag mae llai o arian ar gael heb gyllid yr UE.
- Mae lleoliadau siopa y tu allan i'r dref ac ar-lein yn cyflwyno her ar gyfer canol y ddinas felly mae'n bwysig creu cymysgedd o siopa, bwytai, adloniant a llety (myfyrwyr a phreifat) o ansawdd uchel.
- Mae cynlluniau ar gyfer canol y ddinas yn cynnwys cynlluniau isadeiledd gwyrdd fel ffasâd Gwesty'r Dragon.
- Mae Arena Abertawe wedi cyfrannu at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr ac mae arwyddion cynnar y bydd yn perfformio'n dda. Rhoddir ystyriaeth fanylach i'r Arena i'r Panel pan fydd y flwyddyn gyntaf o fasnachu wedi dod i ben.
- Ceir ffocws lle bo hynny'n bosib ar ailddatblygu'n hytrach na dymchwel rhai adeiladau hanesyddol, er enghraifft Theatr y Palace a Sefydliad Townhill.
- Mae Marchnad Abertawe'n llwyddiannus o hyd yn dilyn peth gwaith adnewyddu ac mae bron wedi'i llenwi.
- Mae 70 o fusnesau newydd wedi agor yn y 18 mis diwethaf.
- Mae gwariant yng nghanol y ddinas yn gadarnhaol ac ni chafwyd unrhyw adroddiadau negyddol o'r 814 o fusnesau sydd yno.

**CYTUNWYD** ar y canlynol:

1) Caiff manwerthu yng nghanol y ddinas ei drafod gyda'r Panel unwaith eto ymhen 6 mis.
2) Rhoddir ffocws i'r Arena ar ôl mis Mawrth 2023, pan fydd 12 mis o fasnachu wedi dod i ben.

## 13 Adroddiad Monitro Rhaglenni/Prosiectau Adfywio

Cyflwynwyd yr adroddiad monitro rheolaidd diweddaraf ar y rhaglen/prosiectau adfywio i'r Panel, ar gyfer unrhyw sylwadau/safbwyntiau ar gynnydd a chyflawniadau. Rhoddodd Huw Mowbray, Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol, ddiweddariadau perthnasol am y canlynol:

<u>Bae Copr:</u>
- Mae'r Arena ar agor ac yn masnachu'n dda.
- Mae rhai rhwystrau bach yn bodoli o hyd ond bwriedir ymdrin â'r rhain erbyn diwedd y flwyddyn.

Adfywio Abertawe, gan gynnwys Gogledd Abertawe Ganolog:
- Mae Gogledd Abertawe Ganolog a safle'r Ganolfan Ddinesig wedi cwblhau cam un ac maent yn symud ymlaen at gam dau, sef y dyluniad manwl.
- Bydd manylion pellach ar gyllid yn dilyn.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y Ganolfan Sector Cyhoeddus wrth i ddyluniadau manwl gael eu datblygu.
- Bydd swyddfeydd ychwanegol yn cyfrannu at ragor o ymwelwyr.

71/72 Ffordd y Brenin:
- Gwneir cynnydd gyda hwn wrth i'r adeilad godi yn uwch na lefel y ddaear yn y flwyddyn newydd.
- Mae'r rhagolygon ar gyfer gosodiadau'n datblygu ac mae'r strategaeth rheoli adeiladau'n cael ei datblygu.
- Mae'r gwaith datblygu ar adeilad Barclays wedi'i ohirio oherwydd bod y prisiau tendro a ddychwelwyd yn uwch na'r disgwyl.

Datblygu a Pherygl o Lifogydd TAN15:
- Mae'r drafodaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch y risg ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol a achosir gan y geiriad yn TAN15 yn parhau.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i lenwi tanffordd Oystermouth Road.

Wind Street:
- Mae rhai rhwystrau bach yn bodoli o hyd.

Sgwâr y Castell:
- Mae penderfyniad cynllunio ar fin cael ei wneud.
- Gwahoddir cynigion am dendro'n fuan.
- Bydd cyllid gan Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru'n cyfrannu tuag at y gost.

Hwb Cymunedol (hen adeilad BHS):
- Gwahoddir tendrau ac mae cynlluniau cam 4 wedi'u cwblhau.

Adleoli'r Ganolfan Ddinesig:
- Bloc swyddfeydd newydd yn ardal Dewi Sant (Canolfan Sector Cyhoeddus) i'w gwblhau yn 2025.

Prosiect Skyline:
- Mae hwn yn gwneud cynnydd da ac mae'r gwaith o gydosod y tir bron wedi'i orffen ac mae'r cofrestriadau tir wedi'u cyflwyno.

Pontŵn yn y Gwaith Copr:
- Mae'r caniatâd adeilad rhestredig wedi'i gadarnhau.
- Mae trafodaethau â'r ystad Badminton yn parhau.
- Mae'r broses gwerthuso tendrau yn mynd rhagddo ar gyfer y gwaith cyflenwi a gosod.

<u>Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Ffordd y Brenin:</u>

- Mae angen dod i gytundeb â WEFO (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru) yn dilyn hepgoriad ailddatblygiad hen eiddo Barclays.

<u>Ailddatblygu Pwerdy Gwaith Copr yr Hafod:</u>

- Disgwylir i'r gwaith adeiledd a chraidd gael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2022.
- Fe'i trosglwyddir i gwmni Penderyn yn fuan.
- Mae'r adran Priffyrdd yn cynnal astudiaeth dichonoldeb ar gyfer symud y safle parcio a theithio.

<u>Theatr y Palace:</u>

- Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf/Awst 2023.

**CYTUNWYD** ar y canlynol:

1) Cysylltir â'r swyddogion Priffyrdd perthnasol i gael gwybodaeth bellach am symud safle parcio a theithio'r Hafod.
2) Cynhelir sesiwn gaeedig ar ddiwedd y cyfarfod nesaf i drafod yr eitemau canlynol -
   - Bae Copr, y maes parcio ger yr Arena
   - Skyline, manylion pryniannau tir
   - y Pontŵn, manylion pryniannau tir

## 14 **Llythyrau**

Ni wnaed unrhyw sylwadau ynghylch llythyr y cyfarfod diwethaf.

## 15 **Cynllun Gwaith 2022/23**

Ni wnaed unrhyw sylwadau ynghylch y cynllun gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.36am.

**Cadeirydd**